# Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

**RDC(3)-06-07 (p1): 8 Tachwedd 2007**

## Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig yn craffu ar y Gyllideb Ddrafft

### Diben

1. Ystyried meysydd o bwys sy'n gysylltiedig â materion gwledig o fewn Cyllideb ddrafft 2008/09 er mwyn canolbwyntio arnynt wrth graffu ar waith y Gweinidog dros Faterion Gwledig yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar 8 Tachwedd 2007.

### Y Cefndir

2. Mae hi'n ofynnol bod y Gyllideb Ddrafft yn cael ei chyhoeddi erbyn 5 Tachwedd 2007. Yn ei gyfarfod ar 8 Tachwedd mae'r Is-bwyllgor i graffu ar Gyllideb Ddrafft 2008/09, a bydd hyn yn sail i adroddiad fydd yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Cynaliadwyedd yn ei gyfarfod ar 15 Tachwedd. Os bydd y Pwyllgor Cynaliadwyedd yn cytuno i gefnogi adroddiad yr Is-bwyllgor ar Gyllideb Ddrafft 2008/09, bydd wedyn yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Cyllid.

3. Fel rhan o'i waith yn craffu ar Gyllideb Ddrafft 2008/09, mae'r Is-bwyllgor wedi gwahodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig i ddod gerbron y cyfarfod ar 8 Tachwedd.

4. Gyllideb Ddrafft materion gwledig ar gyfer 2008/09 yn Atodiad A.

### Argymhelliad

5. Gwahoddir yr aelodau i graffu ar waith y Gweinidog dros Faterion Gwledig o fewn y portffolio materion gwledig, er mwyn i hynny fod yn sail i ystyriaeth yr Is-bwyllgor o Gyllideb Ddrafft 2008/09.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Tachwedd 2007**